Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Y Bumed Senedd

Lleoliad:

Tŷ Hywel

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Medi 2019

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Naomi Stocks

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

Cysylltu@senedd.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.00)

2 Papurau i'w nodi

(09.00-09.05) (Tudalennau 1 - 2)

2.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd ynghylch y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol - 15 Gorffennaf 2019

(Tudalennau 3 - 4)

2.2 Gohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch fframweithiau polisi cyffredin y DU - 22 Gorffennaf 2019

(Tudalennau 5 - 6)

2.3 Gohebiaeth at y Llywydd ynghylch yr ymchwiliad i hawliau pleidleisio carcharorion: eglurhad ar yr ymateb i'r adroddiad - 26 Gorffennaf 2019

(Tudalennau 7 - 8)

2.4 Gohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch yr ymchwiliad i hawliau pleidleisio carcharorion: eglurhad ar yr ymateb i'r adroddiad - 26 Gorffennaf 2019

(Tudalennau 9 - 10)

2.5 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch budd-daliadau yng Nghymru: gwybodaeth ychwanegol - 6 Awst 2019

(Tudalennau 11 - 13)

2.6 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch eiddo gwag: gwybodaeth ychwanegol - 6 Awst 2019

(Tudalennau 14 - 25)

2.7 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn: ymateb dilynol - 6 Awst 2019

(Tudalennau 26 - 29)

2.8 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch fframweithiau polisi cyffredin y DU - 8 Awst 2019

(Tudalen 30)

2.9 Gohebiaeth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ynghylch cysylltiad ag Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf - 9 Awst 2019

(Tudalennau 31 - 32)

2.10 Gohebiaeth gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch fframweithiau polisi cyffredin y DU - 13 Awst 2019

(Tudalen 33)

2.11 Gohebiaeth at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21 - 10 Medi 2019

(Tudalennau 34 - 36)

2.12 Gohebiaeth gan y Llywydd ynghylch adolygu cylch gwaith y Pwyllgor - 30 Gorffennaf 2019

(Tudalennau 37 - 47)

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(09.05)

4 Ymchwiliad i eiddo gwag: trafod yr adroddiad drafft

(09.05-11.00) (Tudalennau 48 - 105)

Bydd y Pwyllgor yn mynd ar ymweliad preifat i gwrdd â phobl sydd â phrofiad uniongyrchol o gysgu ar y stryd

5 Cysgu ar y stryd yng Nghymru: digwyddiad preifat

(11.30-13.00) (Tudalennau 106 - 110)

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

19 Medi 2019 – clawr y papurau i'w nodi

Rhif y papur	Mater	Oddi wrth	Gweithredu
ELGC(5)-24-19 Papur 1	Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol	Vaughan Gething, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 2	Fframweithiau polisi cyffredin y DU	John Griffiths AC	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 3	Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion	Y Llywydd	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 4	Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion	John Griffiths AC	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 5	Budd-daliadau yng Nghymru: opsiynau i'w cyflawni'n well	Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 6	Ymchwiliad i eiddo gwag	Hannah Blythyn, y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 7	Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn	Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 8	Fframweithiau polisi cyffredin y DU	Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip	I'w nodi

ELGC(5)-24-19 Papur 9	Craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol	Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 10	Fframweithiau polisi cyffredin y DU	Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 11	Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-2021	John Griffiths AC	I'w nodi
ELGC(5)-24-19 Papur 12	Adolygu cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau	Y Llywydd	I'w nodi

Eitem 2.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA(P)VG/2593/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

15 Gorffennaf 2019

Annwyl Gadeiryddion,

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'ch pwyllgor am waith Grŵp y Gweinidogion ar Dalu am Ofal Cymdeithasol, a sefydlwyd y llynedd gan y Prif Weinidog ar y pryd i ystyried y posibilrwydd o gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol i helpu i gwrdd â'r costau a'r galw cynyddol sy'n gysylltiedig â darparu'r gofal hwnnw. Fi sy'n cadeirio'r grŵp hwn bellach.

Mae Grŵp y Gweinidogion yn canolbwyntio ar ystyried adroddiad yr Athro Gerald Holtham sy'n edrych ar faterion yn ymwneud â chodi ardoll gofal cymdeithasol. Mae adroddiad yr Athro Holtham ar gael yn: https://llyw.cymru/talu-am-ofal-cymdeithasol. Cylch gwaith y Grŵp yw ymchwilio ymhellach i'r posibiliadau o ran codi ardoll gofal cymdeithasol, neu ddefnyddio mecanwaith arall, i godi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol yn y tymor canolig i'r tymor hir.

Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp yn cynnwys y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r cael ei gefnogi gan swyddogion polisi o wahanol rannau o'r Llywodraeth.

Bydd yn cwblhau asesiad cychwynnol o ba mor ymarferol ac effeithiol fyddai cyflwyno ardoll neu fecanwaith arall erbyn dechrau 2020. Er bod yr Athro Holtham wedi canolbwyntio ar ofal cymdeithasol i bobl hŷn yn benodol, mae gwaith y Grŵp yn ehangach na hynny, gan ei fod yn edrych ar y galw a'r pwysau cyffredinol a wynebir ar draws y maes gofal cymdeithasol.

Er mwyn symud y gwaith hwn yn ei flaen, mae'r Grŵp wedi creu pum ffrwd waith gwahanol, sef:

- Codi'r cyllid - nodi'r mecanwaith y gellid ei ddefnyddio i godi cyllid ychwanegol yn y dyfodol;
- Dosbarthu'r cyllid – nodi'r model mwyaf effeithiol ar gyfer dosbarthu cyllid ychwanegol;
- Defnyddio'r cyllid – ystyried y blaenoriaethau ar gyfer unrhyw gyllid a godir yng nghyd-destun yr angen i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor fel y nodir yn *Cymru Iachach.* Mae'r ffrwd waith hon hefyd yn cynnwys diffinio natur y cynnig a fydd ar gael i bobl pan fyddant yn talu unrhyw ardoll neu dreth a gyflwynir;
- Y rhyngwyneb â Llywodraeth y DU – edrych ar ein cynigion yng nghyd-destun y system pensiynau a budd-daliadau lles ehangach sydd heb ei datganoli, a chynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer darparu gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'r ymgysylltu cychwynnol wedi canolbwyntio ar Bapur Gwyrdd arfaethedig Llywodraeth y DU ar ddarparu gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae oedi wedi digwydd nifer o weithiau o ran cyhoeddi'r papur hwn. Serch hynny, rwy'n credu na allwn fforddio oedi ein hystyriaethau ninnau yma yng Nghymru, ac y dylem fwrw ymlaen â nhw;
- Cyfathrebu – sefydlu dull strategol ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu mewn modd sy'n sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael gwybodaeth gyson am hynt y gwaith hwn, a'u bod yn cael y cyfle i gyfrannu ato lle bo hynny'n briodol.

Yn ogystal â'r uchod, cafodd dau brosiect ymchwil eu comisiynu. Nod y cyntaf yw nodi'r galw a'r pwysau ariannol, a maint y galw a'r pwysau hynny, mewn perthynas â darparu gofal cymdeithasol yn y tymor byr i'r tymor canolig. Bydd yr adroddiad ar yr ymchwil hon yn barod yn ystod yr haf hwn.

Bydd yr ail brosiect ymchwil yn dadansoddi'r gwariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yn ystod y tymor canolig i'r tymor hir, a'r berthynas rhwng y ddau. Ar hyn o bryd mae'r prosiect hwn yn destun broses dendro, a'r bwriad yw cwblhau'r ymchwil erbyn y gwanwyn nesaf. Bydd y ddau brosiect ymchwil hyn yn darparu tystiolaeth gref a fydd yn helpu'r Grŵp i wneud penderfyniadau.

Cafodd y Grŵp gyfle i gyfarfod â Clive Betts AS i drafod adroddiad Pwyllgorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Thai, Chymunedau a Llywodraeth Leol Tŷ'r Cyffredin, sef *Long-Term Funding of Adult Social Care,* yr oedd ef wedi ei gadeirio. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi argymhellion ar gyfer sut y dylid darparu ac ariannu gofal cymdeithasol yn Lloegr yn y dyfodol. Mae ar gael yn:

https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmcomloc/768/768.pdf

Byddwn yn awyddus i gyfarfod â chi fel cadeiryddion pwyllgorau polisi sydd â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud ag ariannu gofal cymdeithasol yng Nghymru, er mwyn trafod y materion hyn yn ogystal â gwaith y grŵp. Hefyd hoffwn gynnig rhoi gwybodaeth friffio dechnegol am waith y Grŵp i'ch pwyllgorau cyn torri ar gyfer y Nadolig.

Yn gywir,

Vaughan Gething AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

22 Gorffennaf 2019

Fframweithiau polisi cyffredin y DU

Annwyl y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog

Yn Fforwm y Cadeiryddion diweddar, cytunwyd y dylai pwyllgorau polisi unigol gasglu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar fframweithiau polisi cyffredin y DU yn ein portffolios pwyllgorau priodol.

Yn gyntaf, a allech chi gadarnhau pa feysydd polisi, os o gwbl, o fewn eich cyfrifoldebau Gweinidogol sy'n debygol o arwain at fframwaith polisi cyffredin? Ar gyfer pob un o'r fframweithiau hyn, a allech chi hefyd fanylu ar y canlynol:

- y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau;
- strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi cael eu sefydlu, neu sydd wrthi'n cael eu datblygu (fforymau Gweinidogol ac ati);
- pa ganlyniad neu ganlyniadau a ddisgwylir o'r fframweithiau (o safbwynt deddfwriaethol ac anneddfwriaethol);
- a oes camau eisoes wedi'u cymryd (deddfwriaethol neu anneddfwriaethol) i sefydlu fframweithiau o fewn eich meysydd cyfrifoldeb;
- cyflwr y cynnydd yn erbyn pob un o'r fframweithiau yn eich meysydd cyfrifoldeb;
- sut maent yn cysylltu â chamau presennol neu arfaethedig Llywodraeth Cymru (e.e. deddfwriaeth, ymgynghoriadau polisi ac ati); a
- sut y bydd maes pob fframwaith yn cael ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe baech yn ymateb cyn dechrau tymor yr hydref, ar ddechrau mis Medi. Gallech ymateb yn unigol neu ar y cyd.

Yn gywir

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Y Llywydd

26 Gorffennaf 2019

Hawliau pleidleisio i garcharorion

Annwyl Elin

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ar hawliau pleidleisio i garcharorion. Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eglurhad pellach ynghylch y camau nesaf.

Yn eich ymateb, dywedwch mai barn y Comisiwn yw mai “Gweinidogion Cymru sydd â'r penderfyniad” ynghylch a ddylid newid yr etholfraint mewn perthynas â phleidleisio carcharorion.

Cafwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru hefyd, ond nid yw ond yn ymdrin â’r argymhellion a wnaethom ar ei chyfer. Mae copi o'r llythyr hwn ynghlwm. Yn ei hymateb i argymhelliad 1, nodir bod y rhan sy'n ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad "wedi'i gyfeirio at y Llywydd a hi, yn y lle cyntaf, ddylai ymateb yng nghyd-destun Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)."

Dyma ofyn bellach am eglurhad ynghylch sut yr ymdrinnir â'r materion sy'n ymwneud â hawliau pleidleisio i garcharorion ac etholfraint y Cynulliad, a phwy fydd yn gyfrifol am y mater hwn. Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 18 Medi, fel y gellir ei ystyried yn y ddadl yn y Cynulliad ar 25 Medi.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir

John

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Wedi'i amgáu: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar Hawliau Pleidleisio i Garcharorion.

CC: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Papur 4 – Llythyr at Lywodraeth Cymru
Paper 4 – Letter to Welsh Government

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

26 Gorffennaf 2019

Hawliau pleidleisio i garcharorion

Annwyl Julie

Diolch am eich ymateb i'n hadroddiad ar hawliau pleidleisio i garcharorion. Rydym hefyd wedi cael ymateb gan y Llywydd ar ran Comisiwn y Cynulliad. Rwyf wedi amgáu copi.

Byddwch yn nodi bod y Llywydd yn dweud mai barn Comisiwn y Cynulliad yw mai “Gweinidogion Cymru sydd â'r penderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas â hawliau pleidleisio i garcharorion a phryd y dylid gwneud hynny.”

Dyma ofyn bellach am eglurhad ynghylch sut yr ymdrinnir â'r materion sy'n ymwneud â hawliau pleidleisio i garcharorion ac etholfraint y Cynulliad, a phwy fydd yn gyfrifol am y mater hwn. Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 18 Medi, fel y gellir ei ystyried yn y ddadl yn y Cynulliad ar 25 Medi.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at y Llywydd ar y mater hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir



John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English

Wedi'i amgáu: Gohebiaeth gan y Llywydd

CC: Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Papur 5 - Llywodraeth Cymru
Paper 5 - Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-(P)/HB/2673/19

John Griffiths AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

6 Awst 2019

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr ar ôl imi ymddangos gerbron y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Undeb Cymdeithasol

Gofynnwyd i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru roi dadansoddiad o'r potensial i ddatganoli'r gwaith o weinyddu budd-daliadau lles. Nid wyf am achub y blaen ar ei hystyriaethau drwy fynnu y dylai unrhyw fudd-daliadau penodol gael eu cynnwys o fewn cwmpas ei dadansoddiad neu eu hepgor ohono. Mae'n bwysig cofio nad ydym yn gofyn am i'r system les gael ei datganoli ond yn hytrach ein bod yn ystyried a allai agweddau ar y gwaith o'i gweinyddu gael eu datganoli ac, wrth wneud hynny, a ellid sicrhau manteision i ddinasyddion Cymru. Efallai y bydd ein ffocws ar weinyddu yn dylanwadu ar y dadleuon sy'n ymwneud ag undeb cymdeithasol. Yn gyffredinol, mae'r cysyniad o undeb cymdeithasol yn aml yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r broses o gyfuno a rhannu adnoddau yn ôl yr angen. Yn 2014 argymhellodd Comisiwn Silk y dylai nawdd cymdeithasol barhau i gael ei gadw'n ôl i Lywodraeth y DU am ei fod yn rhan o undeb cymdeithasol y DU, ac am ei fod o'r farn bod y risgiau ariannol yn rhy fawr.

Nid yr undeb cymdeithasol yw'r unig ffactor y dylid ei ystyried o reidrwydd wrth benderfynu a yw'n ddymunol datganoli'r system les. Mae'r risgiau ariannol hefyd yn bwysig, fel y nodwyd gan Silk. Er enghraifft, gallai budd-daliadau sy'n gylchol eu natur beri risg ariannol fwy o lawer na'r rhai sy'n fwy rhagweladwy eu natur. Mae'n rhaid i ni fabwysiadu ymagwedd bwyllog ofalus a dyma pam rydym o'r farn mai ystyried datganoli gweinyddu yw'r ffordd gywir ymlaen.

Diffiniad o Weinyddu

Mae system les y DU yn seiliedig ar fframwaith deddfwriaethol cymhleth ac nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng polisi lles a'r gwaith o'i weinyddu. Mae agweddau ar y system bresennol y gellid ystyried eu bod yn rhai gweinyddol yn aml yn cael eu nodi mewn deddfwriaeth ac yn adlewyrchu dewisiadau pwrpasol y bwriedir iddynt gyflawni amcanion polisi penodol, er enghraifft y bwriad y bydd Credyd Cynhwysol yn adlewyrchu byd gwaith mor agos â phosibl. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd cryn dipyn o ddadlau ynglŷn â'r rhaniad rhwng polisi a gweinyddu. Un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'n hystyriaeth o 'weinyddu datganoledig' yw y dylai'r system les fod yn deg o ran y ffordd y mae'n trin pobl, ac y dylai fod wedi'i chynllunio mor syml â phosibl, gan hyrwyddo gweinyddu effeithlon a helpu dinasyddion i ddeall eu hawliau. Rydym wedi gofyn i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru am ei barn ar y mater hwn.

Cydberthnasau rhynglywodraethol

Fel y gŵyr y Pwyllgor, comisiynwyd adolygiad ar y cyd o gydberthnasau rhynglywodraethol yng nghyfarfod llawn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ym mis Mawrth 2018. Mae'r adolygiad yn gwerthuso'r systemau rhynglywodraethol presennol, gan gynnwys fforymau Gweinidogion, ac yn ystyried pa systemau newydd y gallai fod eu hangen yn y dyfodol. Ein barn ni, a rennir gan Lywodraeth yr Alban, yw bod angen atgyfnerthu saernïaeth rynglywodraethol yn sylweddol fel mater o frys, gan gynnwys systemau diwygiedig sy'n ddigon cadarn i gynnal pwysau'r gwaith rhynglywodraethol sydd ei angen bellach, a phroses datrys anghydfod gryfach sy'n cynnwys elfen annibynnol ac yn sicrhau cydraddoldeb gwirioneddol o ran cyfranogiad.

O ran yr Adolygiad ar wahân o Alluogrwydd yr Undeb Llywodraeth y DU, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU ac a gynhaliwyd gan yr Arglwydd Dunlop, rydych yn cyfeirio ato, rydym o'r farn y gallai ystyried a yw Whitehall yn gweithio mewn ffordd sy'n parchu ac yn cefnogi datganoli, helpu i gyflawni'r adolygiad o gydberthnasau rhynglywodraethol sy'n parhau i fynd rhagddo, a helpu i roi hwb newydd i'r adolygiad hwnnw, y mae ei angen arno yn ddiau. Fodd bynnag, collwyd cyfle pwysig drwy beidio ag ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban cyn cyhoeddi'r adolygiad, am y byddai hyn wedi dangos mwy o barch at y setliad datganoli ac wedi'i gwneud yn bosibl i'r cylch gorchwyl gael ei lunio gyda mantais ein mewnbwn. Nodwn fod cylch gorchwyl yr adolygiad (sydd ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/814759/ToRs_for_independent_review.pdf) yn hepgor yn benodol ystyriaeth o bwerau a chyfrifoldebau datganoledig.

Mae'n bwysig cofio y dylai holl adrannau Llywodraeth y DU ymwneud â'r gweinyddiaethau datganoledig ar sail yr egwyddorion y cytunwyd arnynt yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, sef egwyddorion a adlewyrchir yn y concordat y cytunodd Llywodraeth Cymru arno yn ddiweddar â'r Adran Gwaith a Phensiynau (sydd ar gael yn

https://llyw.cymru/concordat-rhwng-adran-gwaith-phensiynau-llywodraeth-y-du-ar-llywodraeth-cymru

Ymgorffori barn pobl â phrofiadau go iawn yn y prosesau o lunio, gweithredu a gwerthuso polisi

Mae deall ac adlewyrchu barn y rhai y mae polisïau yn effeithio'n uniongyrchol arnynt yn hanfodol i'r 5 ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Er enghraifft, wrth lunio a datblygu ein Cynnig Gofal Plant drwy ymgysylltu â rhieni, awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant.

Mae'r enghraifft rydych yn cyfeirio ati, sef y Gronfa Cymorth Dewisol (CCD), yn un dda. Mae'r meini prawf ar gyfer CCD wedi'u haddasu er mwyn sicrhau bod y gronfa yn adlewyrchu amgylchiadau a phrofiadau go iawn defnyddwyr gwasanaethau am ei bod yn cael ei chefnogi gan rwydwaith o bartneriaid sy'n cyflwyno ceisiadau ar ran eu cleientiaid. Daw'r partneriaid hyn o fwy na 300 o sefydliadau rheng flaen ledled Cymru, gan gynnwys sefydliadau trais domestig ac elusennau ym maes digartrefedd. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i helpu i lywio'r gronfa, o gofio eu harbenigedd mewn cefnogi grwpiau sy'n fwy agored i niwed, a'r wybodaeth sydd ganddynt am eu cleientiaid a'r pwysau y maent yn eu hwynebu bob dydd. Er enghraifft, daeth yn amlwg inni, ar sail tystiolaeth defnyddwyr gwasanaethau ar y cam gwneud cais a phartneriaid, fod bylchau ac oedi o ran talu budd-daliadau lles yn achosi caledi, felly gwnaethom gynnwys hyn fel maen prawf cymhwysedd ar gyfer cael taliadau brys. Hefyd, gwnaethom ddiwygio'r meini prawf er mwyn galluogi unigolion sydd wedi cael eu cosbi i wneud cais, o ystyried y caledi hwn. Yn yr un modd, er mwyn goresgyn problem y cyfnod sylweddol o amser y mae'n rhaid i hawlwyr newydd Credyd Cynhwysol aros i gael eu taliad cyntaf, rydym yn caniatáu i bartneriaid gadarnhau bod cais am Gredyd Cynhwysol wedi'i wneud, gan alluogi unigolion i wneud cais i'r Gronfa Cymorth Dewisol, am fod cymhwysedd, cyn hynny, yn seiliedig ar b'un a oedd yr unigolyn yn cael budd-daliadau ai peidio. At hynny, daethom yn ymwybodol o'r ffaith bod unigolion sy'n gadael carchardai, cartrefi gofal a hosteli i bobl ddigartref yn ei chael hi'n anodd ymdopi, heb fawr ddim eiddo os o gwbl. Felly, gwnaethom ymateb drwy gynyddu gwerth y taliad arian parod brys i'r grwpiau hyn, er mwyn helpu i'w hailsefydlu.

Yn gywir,



Hannah Blythyn AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA- P-JJ-2078-19

John Griffiths, AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb
Llywodraeth Leol a Chymunedau

6 Awst 2019

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am y cyfle i dynnu sylw at bwysigrwydd yr agenda eiddo gwag drwy ymchwiliad y Pwyllgor i'r pwnc hwn.

Yn ystod fy sesiwn dystiolaeth, cytunais i ysgrifennu atoch gyda chanlyniadau'r arolwg byr a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol ynghyd â rhagor o wybodaeth am bremiymau'r Dreth Gyngor. Atodir y wybodaeth hon er mwyn i chi ei hystyried

Yn gywir,

Hannah Blythyn AC/AM
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Deputy Minister for Housing and Local Government

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 17 Gorffennaf 2019: Cyfraniad at y gwaith dilynol – ail gartrefi, anheddau gwag a'r dreth gyngor

Ymrwymais i ddarparu rhagor o wybodaeth am atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor a phremiymau'r dreth gyngor. Efallai y bydd o gymorth i ddechrau pe bawn yn egluro'r diffiniadau a ddefnyddir at ddibenion y dreth gyngor a'r amgylchiadau lle y gall eithriadau, gostyngiadau a phremiymau fod yn gymwys. Rhoddir rhestr o eithriadau a gostyngiadau yn **Atodiad 1.**

Mae'n bwysig deall y gwahaniaethau rhwng ail gartrefi, cartrefi gwag a chartrefi gwag hirdymor at ddibenion y dreth gyngor. Mae atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor yn cael ei benderfynu'n bennaf drwy ystyried a yw annedd yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa i rywun. Os felly, mae'r meddiannydd (y perchennog neu'r tenant) yn atebol i dalu'r dreth gyngor oni bai bod yr annedd yn perthyn i un o'r dosbarthiadau sydd wedi'u heithrio neu fod y meddiannydd yn gymwys i gael gostyngiad llawn.

Os nad yw'r annedd yn unig breswylfa nac yn brif breswylfa i rywun, mae ei dosbarthiad fel cartref gwag neu ail gartref yn cael ei benderfynu drwy ystyried a yw wedi'i meddiannu ac a yw wedi'i dodrefnu. Mae annedd wag yn un sydd heb ei meddiannu a heb ei dodrefnu i raddau helaeth. Mae 'eiddo gwag hirdymor' yn un sydd wedi bod yn wag ers 12 mis neu fwy.

Mae ail gartref yn annedd nad yw'n unig breswylfa nac yn brif breswylfa i rywun ac sydd wedi'i dodrefnu i raddau helaeth – mae cyfraith y dreth gyngor yn cyfeirio at eiddo o'r fath fel 'anheddau sy'n cael eu meddiannu'n achlysurol' ond cyfeirir atynt yn gyffredinol fel 'ail gartrefi'.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r term 'ail gartref' yn cyfeirio at amrywiaeth o anheddau. Nid yw wedi'i gyfyngu i anheddau sy'n cael eu defnyddio fel cartrefi gwyliau neu benwythnos preifat. Er enghraifft, mae'r diffiniad yn cynnwys eiddo sy'n cael ei farchnata i'w werthu neu ei osod, eiddo sy'n perthyn i bobl y mae eu swyddi yn ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio rywle arall, cartrefi tymhorol a adeiladwyd i'r pwrpas, a charafannau. Ni fyddai llawer o'r rhain ar gael nac yn addas i'w meddiannu drwy gydol y flwyddyn.

O dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, gellir rhoi gostyngiad ym miliau'r dreth gyngor ar gyfer anheddau gwag (gan gynnwys anheddau gwag hirdymor) ac ail gartrefi. Mae gan awdurdodau bwerau disgresiwn i amrywio neu ddileu'r gostyngiad.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn darparu pwerau i awdurdodau lleol godi premiymau o hyd at 100% ar filiau'r dreth gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Gall awdurdodau bennu'r premiymau ar unrhyw lefel hyd at 100% a gallant godi'r premiwm ar anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi neu'r ddau a gallant godi gwahanol bremiymau ar y gwahanol fathau o annedd.

Cyflwynwyd y darpariaethau er mwyn helpu awdurdodau i reoli materion sy'n ymwneud â chyflenwi tai lleol. Ni chawsant eu cyflwyno fel mesur codi refeniw. Mae'r pwerau disgresiwn hyn yn galluogi awdurdodau i deilwra'r defnydd y maent yn ei wneud o bremiymau er mwyn diwallu anghenion cymunedau lleol. O dan y darpariaethau, roedd awdurdodau yn gallu cyflwyno premiymau o 1 Ebrill 2017

ymlaen (ar ôl caniatáu'r cyfnod angenrheidiol o amser er mwyn i eiddo fodloni'r amodau perthnasol).

Fodd bynnag, mae sawl eithriad lle na ellir codi'r premiwm, sef:

- Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gwerthu – mae'r eithriad hwn yn para am gyfnod penodedig o flwyddyn
- Anheddau sy'n cael eu marchnata i'w gosod – mae'r eithriad hwn yn para am gyfnod penodedig o flwyddyn
- Anecs sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael ei drin fel rhan ohoni.
- Anheddau a fyddai'n unig breswylfa neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n preswylio yn llety'r lluoedd arfog
- Lleiniau carafannau ac angorfeydd cychod wedi'u meddiannu
- Cartrefi tymhorol y gwaherddir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn
- Anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mater i awdurdodau lleol unigol yw penderfynu a ddylid codi premiwm. Mae angen i bob awdurdod ystyried yr holl effeithiau posibl wrth benderfynu a ddylid codi premiwm. Mae hyn yn cynnwys ystyried effaith cyflwyno premiymau ar yr economi leol a'r sylfaen drethu leol. Ceir rhagor o wybodaeth yn *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gyd-fynd â chyflwyno'r pwerau: https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/160122-guidance-implementation-of-council-tax-premiums-cy.pdf

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gellid defnyddio rhai anheddau naill ai fel ail gartrefi (fel y'u diffiniwyd uchod) neu fel llety hunanddarpar a osodir yn fasnachol i bobl ar wyliau ac mae wedi deddfu i wneud y gwahaniaeth yn glir.

Er mwyn cymhwyso fel llety hunanddarpar, mae'n rhaid i lety fod ar gael i'w osod am o leiaf 140 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis a chael ei osod mewn gwirionedd am o leiaf 70 diwrnod. Nodwyd y diffiniad yng *Ngorchymyn Ardrethu Annomestig (Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2010.* Cafodd y Gorchymyn ei ddiwygio a'i gryfhau yn 2016. Cadwyd y cyfnodau cymhwyso, gan adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgyngoriadau cyhoeddus.

Mae'r meini prawf ar gyfer llety hunanddarpar yn taro cydbwysedd rhwng cefnogi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru a sicrhau nad yw ail gartrefi nas defnyddir ddigon yn cyfyngu ar argaeledd tai fforddiadwy, yn enwedig mewn rhai cymunedau llai o faint.

Gellir cofnodi anheddau sy'n bodloni'r meini prawf ar y rhestr ardrethu annomestig yn hytrach na rhestr y dreth gyngor. Mae'n rhaid talu'r dreth gyngor ar gyfer anheddau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf, gan gynnwys ail gartrefi a gedwir at ddefnydd preifat yn bennaf. Caiff rhestrau o brisiadau at ddibenion y dreth gyngor ac ardrethu annomestig eu llunio a'u cynnal gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Mae'r Asiantaeth yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Er mwyn i eiddo gael ei ddiffinio fel llety hunanddarpar a'i symud i'r rhestr ardrethu, mae'n rhaid i'r perchennog roi tystiolaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio bod yr eiddo yn bodloni'r meini prawf. Mae'n ofynnol i berchenogion gwblhau ffurflen a darparu dogfennau, er enghraifft cyfrifon a derbynebau, er mwyn dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf. Mae'r Asiantaeth yn craffu ar y wybodaeth hon cyn gwneud unrhyw

newidiadau i'r rhestrau. Os bydd awdurdod lleol o'r farn y dylid rhestru eiddo ar gyfer y dreth gyngor a bod ganddo dystiolaeth o hyn, bydd yn rhaid iddo rannu'r wybodaeth honno â'r Asiantaeth a bydd yr Asiantaeth yn ystyried y dystiolaeth. Mae swyddogion yn parhau i fonitro effaith cyflwyno'r pwerau disgresiwn i godi premiymau.

Efallai y bydd llety hunanddarpar sydd islaw gwerth ardrethadwy penodol yn gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ei gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach parhaol ar 1 Ebrill 2018. Bu'r cynigion, gan gynnwys p'un a ddylai fod unrhyw eithriadau ychwanegol, yn destun ymgynghoriad cyhoeddus hefyd. Mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru.

ATODIAD 1: EITHRIADAU, GOSTYNGIADAU A DIYSTYRIADAU'R DRETH GYNGOR

O fewn system y dreth gyngor, mae mathau penodol o anheddau wedi'u heithrio (Tabl 1). Nid yw'r dreth gyngor yn daladwy ar anheddau wedi'u heithrio.

Mewn anheddau a feddiennir, mae pobl benodol yn cael eu diystyru (nid ydynt yn cael eu cyfrif) at ddibenion y dreth gyngor (Tabl 2). Os mai dim ond un oedolyn atebol sy'n meddiannu annedd (nad yw mewn dosbarth wedi'i ddiystyru), caiff gostyngiad o 25% ei gymhwyso at y bil. Os yw'r holl feddianwyr mewn dosbarth wedi'i ddiystyru, bydd gostyngiad o 50% yn gymwys (oni fydd yr holl feddianwyr yn perthyn i ddosbarth, e.e. myfyrwyr, sy'n golygu bod yr annedd yn gymwys i gael ei heithrio).

At hynny, efallai y bydd gan gartref incwm isel yr hawl i gael gostyngiad o dan gynllun gostyngiadau'r dreth gyngor.

Tabl 1: Eithriadau'r Dreth Gyngor

Dosbarth	Crynodeb
A	Heb ei feddiannu - eiddo anghyfaneddol neu wag a heb ei ddodrefnu sy'n destun gwaith addasu strwythurol neu waith atgyweirio. Am gyfnod penodedig: hyd at 12 mis.
B	Heb ei feddiannu – yn eiddo i elusen. Am gyfnod penodedig: hyd at chwe mis ers y tro diwethaf iddo gael ei feddiannu.
C	Heb ei feddiannu – gwag a heb ddodrefn. Am gyfnod penodedig: Hyd at chwe mis ers iddo ddod yn wag.
D	Heb ei feddiannu – mae'r unigolyn atebol dan gadwad.
E	Heb ei feddiannu – mae'r unigolion atebol yn yr ysbyty neu mewn cartref gofal.
F	Heb ei feddiannu – mae'r unigolyn atebol wedi marw. Am gyfnod penodedig: am y cyfnod cyn i brofiant neu lythyrau gweinyddu gael eu rhoi ac am hyd at chwe mis ar ôl i brofiant neu lythyrau gweinyddu gael eu rhoi.
G	Heb ei feddiannu – gwaherddir ei feddiannu o dan y gyfraith.
H	Heb ei feddiannu – fe'i delir ar gael i'w ddefnyddio gan weinidogion crefydd.
I	Heb ei feddiannu - mae'r unigolyn atebol yn cael gofal rywle arall.
J	Heb ei feddiannu – mae'r unigolyn atebol yn darparu gofal rywle arall.
K	Heb ei feddiannu – mae'r unigolyn atebol yn fyfyriwr.
L	Heb ei feddiannu – adfeddiannu.
M	Yn cael ei feddiannu – neuaddau preswyl i fyfyrwyr yn bennaf.
N	Yn cael ei feddiannu – gan fyfyrwyr yn unig.
C	Llety lluoedd arfog y Weinyddiaeth Amddiffyn.
P	Llety lluoedd arfog sy'n ymweld.

Q	Heb ei feddiannu – wedi'i adael yn wag gan unigolyn y datganwyd ei fod yn fethdalwr.
R	Heb ei feddiannu - llain carafán neu angorfa cwch.
S	Yn cael ei feddiannu– gan unigolyn neu unigolion o dan 18 oed yn unig.
T	Heb ei feddiannu – anecs neu ran o annedd na ellir ei (g)osod ar wahân.
U	Yn cael ei feddiannu - gan unigolyn neu unigolion â nam meddyliol difrifol yn unig.
V	Yn cael ei feddiannu – lle mae o leiaf un unigolyn yn ddiplomydd.
W	Yn cael ei feddiannu – anecs a feddiennir gan berthynas dibynnol.
X	Yn cael ei feddiannu – gan unigolion sydd wedi gadael gofal o dan 25 oed yn unig.

Tabl 2: Diystyriadau'r Dreth Gyngor

Wrth weithio allan nifer y bobl sy'n byw mewn eiddo at ddibenion cyfrif bil treth gyngor, diystyrir y bobl ganlynol (nid ydynt yn cael eu cyfrif).

Pobl a ddiystyrir at ddibenion y dreth gyngor
Unrhyw un 17 oed neu'n iau
Carcharor neu rywun dan gadwad sy'n aros i gael ei allgludo neu sydd o dan ddeddfwriaeth iechyd meddwl.
Rhywun sydd â nam meddyliol difrifol.
Myfyriwr llawn amser ar gwrs addysg cymwys (gan gynnwys cyrsiau gohebu neu ar-lein); nyrsys o dan hyfforddiant; Cynorthwywyr leithoedd Tramor ar un o raglenni swyddogol y Cyngor Prydeinig. Os yw eiddo yn cael ei feddiannu gan fyfyrwyr yn unig, mae wedi'i eithrio rhag y dreth gyngor.
Priod, partner sifil neu ddibynnydd myfyriwr nad yw'n ddinesydd Prydeinig ac na chaniateir iddo/iddi, o dan reolau mewnfudo, weithio yn y DU na hawlio budd-daliadau
Person ifanc ar un o gynlluniau hyfforddi'r llywodraeth neu sy'n dilyn mathau penodol o brentisiaeth.
Claf hirdymor mewn ysbyty neu breswylydd mewn cartref gofal.
Rhywun sy'n byw mewn hostel sy'n darparu gofal neu driniaeth oherwydd henaint, anabledd corfforol neu feddyliol, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau nawr neu yn y gorffennol, neu salwch meddwl nawr neu yn y gorffennol.
Rhywun sy'n byw mewn hostel fechnïaeth neu hostel brofiant.
Gweithwyr gofal sy'n byw gyda'r cleient.
Rhywun sy'n aros mewn hostel neu loches nos, er enghraifft un o hosteli Byddin yr Iachawdwriaeth neu Fyddin yr Eglwys.
Unigolyn o dan 20 oed a adawodd yr ysgol neu'r coleg ar ôl 30 Ebrill. Diystyrir y rhai sy'n gadael yr ysgol tan 1 Tachwedd yn yr un flwyddyn p'un a ydynt yn ymgymryd â chyflogaeth ai peidio.
Rhywun 18 oed sy'n gymwys i gael Budd-dal Plant o hyd.
Aelod o gymuned grefyddol.
Aelod o lu arfog sy'n ymweld (diystyrir ei ddibynyddion hefyd).
Plentyn neu berson ifanc o dan 25 oed sy'n gadael gofal.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn adolygu ei polisi ar gartrefi ac adeiladau gwag gyda'r gobaith o symleiddio rhai oi rhaglenni benthyciadau/grant presennol ac iw gwneud yn fwy effeithiol i Awdurdodau Lleol eu defnyddio. Yn ychwanegol rydym yn edrych ar y defnydd o bwerau gorfodi, a sut y gallwn os bosib helpu Awdurdodau Lleol defnyddio'r pwerau hyn.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech gymerud ychydig o funudau i lenwi ein harolwg gan fod eich barn yn bwysig. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymeryd rhan mewn trafodaeth wyneb yn wyneb ân swyddogion, os gwelwch yn dda rhowch wybod i ni ar ddiwedd yr arolwg. Os gwelwch yn dda atebwch yr holl gwestiynau os ydi'n bosibl:

1. A oes gennych strategaeth cartrefi/eiddo gwag?

OES		NAG OES	

2. Lle mae cyfrifoldeb am eiddo gwag yn eistedd o fewn eich awdurdod lleol?

Tîm adfywio	
Tîm amgylcheddol	
Tîm cynllunio	
Tîm tai	
Cyfuniad o'r uchod	
Arall – nodwch os gwelwch yn dda	

3. Ydych chi'n defnyddio unrhyw gynlluniau benythyciad neu grant Llywodraeth Cymru i daclo eiddo gwag?

YDYN		NAC-YDYN	

4. Os ydych, pa un o'r canlynol ydych chi'n ei ddefnyddio (ticiwch bopeth sy'n berthnasol):

Benthyciadau Tai (HIH/HIL)	
Benthyciadau Canol Dref	
Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (TRI)	
Cynlluniau eraill – os gwelwch yn dda rhestrwch yn isod	

5. A ydych chi'n cymeryd camau gorfodi yn rheolaidd i ddod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd?

YDYN		NAC-YDYN	

6. Os ydych, pa un o'r canlynol ydych chi'n ei ddefnyddio (ticiwch bopeth sy'n berthnasol):

Hysbysiadau Adran 215 - Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990	
Adran 79 - Deddf Adeiladu 1984	
Hysbysiadau gwella a EDMO's - Deddf Tai 2004	
Gorchmynion Prynu Gorfodol	
Pwerau eraill – os gwelwch yn dda rhestrwch yn isod	

7. Os nac ydych, pa rai o'r canlynol sy'n eich atal rhag defnyddio'ch pwerau gorfodi?

Adnoddau ariannol	
Adnoddau Staffio	
Arbenigedd o fewn eich awdurdod	
Blaenoriaeth gwaith arall	
Rhesymau eraill – os gwelwch yn dda rhestrwch yn isod	

8. Os hoffech drafod yr holiadur hwn wyneb yn wyneb â Llywodraeth Cymru, nodwch eich manylion cyswllt yn isod?

……
……
……
……

Diolch yn fawr, os gwelwch yn dda gyrrwch eich ffurflenni wedi' gwbwlhau i:

Kathryn Beard: Kathryn.beard@gov.wales

neu

Vivienne Lewis :Vivienne.lewis@gov.wales

Canlyniadau'r Holiadur Gorfodi

Awdurdod	Blaenau Gwent	Pen-y-bont ar Ogwr	Caerffili	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin		Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych		Sir y Fflint	Gwynedd	Merthyr Tudful
					C1	C2			C1	C2			
Strategaeth Cartrefi Gwag	√	√	X	X	√	X	√	√	√	√	√	√	√
Cyfrifoldeb													
Adfywio	✓			✓			✓				✓		
Amgylcheddol											✓		
Cynllunio							✓						
Tai			✓		Arweiniol		✓	✓					
Cymysgedd		✓			✓	✓			✓	✓	✓	✓	✓
Cynlluniau Llywodraeth Cymru a ddefnyddir													
Benthyciadau Eiddo	✓	✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Benthyciadau Canol Trefi				✓	✓	✓		✓	✓			✓	
Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio			✓		✓	✓	✓		✓	✓		✓	✓
Arall													
Camau Gorfodi													
Adran 215		✓	✓		✓		✓	✓	✓	✓		✓	
Adran 79	✓		✓				✓	✓				✓	
Hysbysiad Gwella		✓	✓		✓		✓		✓				
Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag									✓	✓			
Gorchymyn Prynu Gorfodol								✓	✓				
Arall	✓	✓			✓		✓	✓				✓	
Rhwystrau i gymryd Camau Gorfodi													
Ariannol			✓	✓		✓	✓		✓	✓	✓	✓	✓
Staffio			✓			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Arbenigedd						✓		✓			✓		
Blaenoriaeth gwaith			✓			✓	✓	✓			✓	✓	✓
Arall					✓							✓	

Awdurdod	Sir Fynwy	Castell-nedd Port Talbot	Casnewydd	Sir Benfro	Powys	Rhondda Cynon Taf	Abertawe			Torfaen	Bro Morgannwg		Wrecsam	Ynys Môn
							C1	C2	C3		C1	C2		
Strategaeth Cartrefi Gwag	X	√	√	√	√	√	X	√	√	√	√	√	√	√
Cyfrifoldeb														
Adfywio			✓							✓		Arweiniol	✓	
Amgylcheddol		✓				✓	✓			✓				
Cynllunio														
Tai	✓		Arweiniol		✓	✓				✓	✓			✓
Cymysgedd			✓	✓				lechyd y cyhoedd/tai		✓		✓		
Cynlluniau a ddefnyddir														
Benthyciadau Eiddo	✓	✓	✓	✓	✓	✓		✓		✓	✓	✓	✓	✓
Benthyciadau Canol Trefi			✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓		✓	✓	✓
Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio			✓	✓	✓	✓		✓	✓	✓		✓	✓	✓
Arall			✓		✓			Cronfa'r UE (Adeiladu ar gyfer y Dyfodol)			✓			✓
Camau Gorfodi														
Adran 215		✓	✓			✓	✓			✓	✓	✓		✓
Adran 79		✓	✓		✓	✓	✓	✓			✓	✓		✓
Hysbysiad Gwella		✓	✓		✓		✓	✓			✓			✓
Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag			✓				✓	✓			✓			
Gorchymyn Prynu Gorfodol														✓
Arall		✓	✓		✓	✓	✓			✓	✓	✓		
Rhwystrau i gymryd Camau Gorfodi														
Ariannol		✓	✓	✓	✓		✓			✓		✓		✓
Staffio			✓	✓	✓		✓		✓	✓		✓	✓	
Arbenigedd		✓								✓		✓	✓	
Blaenoriaeth gwaith	✓		✓	✓	✓		✓		✓	✓		✓	✓	✓
Arall	✓												✓	

Eitem 2.7

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref: MA/P/JJ/2546/19

John Griffiths AC/AM
Cadeirydd y Pwyllgor
Y Pwyllgor Cydraddoldeb Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

6 Awst 2019

Annwyl John

Llythyr ymateb i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Gorffennaf mewn ymateb i gyhoeddi'r ddogfen 'Map tuag at adeiladau mwy diogel yng Nghymru' gan y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau, ac yn dilyn fy natganiadau llafar ar y map hwn.

Rwyf eisoes wedi derbyn pob argymhelliad yn y Map mewn egwyddor, ac rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau am sut rwy'n bwriadu rhoi'r argymhellion hyn ar waith. Ceir isod ymateb i bob un o'r materion a godwyd yn eich llythyr.

Mae fy swyddogion bellach wedi anfon copi at Aelodau'r Cynulliad o gynllun manylach Bwrdd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau. Mae'r cynlluniau hyn hefyd ar gael yn llyfrgell y Cynulliad. Mae'n cynnwys papur ysgrifenedig yn amlinellu'r ffrydiau gwaith sydd eu hangen i wella'r system bresennol a darparu'r cynigion polisi ar gyfer diwygio deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'n cynnwys siart prosiect sy'n dangos yr amserlen ar gyfer y ffrydiau gwaith hyn, a fyddai'n arwain at ddatblygu deddfwriaeth sylfaenol yn barod i'w chyflwyno yn ystod tymor y Cynulliad nesaf, yn amodol ar y Llywodraeth nesaf wrth gwrs.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Mai, nodais fod angen consensws rhwng y rheoleiddwyr a rhanddeiliaid eraill, a'n bod heb lwyddo i sicrhau consensws llawn eto ar bob mater. Nid wyf yn credu bod unrhyw beth dadleuol iawn ynghylch disodli'r Gorchymyn Diogelwch Tân; ond mae'n amlwg yn hollbwysig bod yr holl grwpiau perthnasol yn cefnogi pob elfen o drefn newydd ar gyfer diogelwch adeiladau. Felly, nid wyf yn ymddiheuro am gymryd amser i adeiladu a chynnal y consensws hwnnw.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roeddech yn holi ynghylch amseriad Bil i ddisodli'r Gorchymyn Diogelwch Tân. Mae fy ymrwymiad i ddeddfu ar hyn a materion cysylltiedig eraill yn parhau. Fy mwriad yw cyflwyno newidiadau deddfwriaethol yn ystod tymor y Cynulliad hwn i wella'r ddeddfwriaeth bresennol. Bydd y newidiadau hyn, er enghraifft gwneud y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymgynghorai statudol yn ystod y cyfnod cynllunio, yn helpu i wella ein system. Ond nid dyma'r newid sydd ei angen ar draws y system. Mae pwysau difrifol ar raglen ddeddfu Llywodraeth Cymru, ac mae'n annhebygol y bydd amser yn ystod tymor y Cynulliad hwn i gyflwyno Bil ar y raddfa y byddem ei hangen. Fy nod, fel y mae'r cynllun prosiect yn ei ddangos, yw gwneud cymaint o'r gwaith â phosibl yn ystod gweddill tymor y Cynulliad hwn er mwyn i'r Llywodraeth nesaf allu cyflwyno deddfwriaeth yn gynnar yn y tymor nesaf os yw'n dewis gwneud hynny. Rwy'n pwysleisio eto bod angen rhaglen ddiwygio gynhwysfawr a fydd yn gofyn am ddull gweithredu cydlynol. Hynny yw, newid y system gyfan ac nid y Gorchymyn Diogelwch Tân yn unig.

Roeddech hefyd yn holi am ddata ynghylch drysau tân mewn tai cyngor. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cadw data o'r fath. Nid rôl y Llywodraeth yw cadw rhestr o bob cynnyrch a ddefnyddir yn y diwydiant adeiladu yng Nghymru. Nodaf fod erthygl *Inside Housing* yn defnyddio amcangyfrifon a ddarparwyd gan Gynghorau yn Lloegr, ac nid yw'n glir i ba raddau nad yw'r drysau tân yn cydymffurfio â'r safonau. Mae'n un peth i amcangyfrif faint o ddrysau tân nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau, ond heb dystiolaeth gallai gosod drysau newydd fod yn ddrud heb unrhyw fudd materol. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau o dan y Gorchymyn Diogelwch Tân, sy'n cynghori 'personau cyfrifol' i ddiweddaru eu hasesiad risgiau tân ar sail yr wybodaeth sydd wedi dod i'r amlwg am ddrysau tân. Mater i'r personau cyfrifol yw gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r risgiau ac yn cymryd camau priodol.

Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar eu rhaglenni profi, gan gynnwys drysau tân a chladin, ac yn monitro'r sefyllfa. Rwy'n falch bod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi cyhoeddi'n ddiweddar canlyniadau'r profion ar ddrysau tân pren ac wedi cadarnhau bod pob drws a brofwyd wedi pasio'r safon ofynnol, sef eu bod yn rhoi o leiaf 30 munud o ddiogelwch rhag tân ar bob ochr. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/818164/Cover_Letter_for_Timber_Release.pdf

Er mai un mesur diogelwch tân yn unig yw drysau tân mewn adeilad uchel iawn, rwyf yn cydnabod eu pwysigrwydd.

Bydd Bwrdd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu data'r Achos Diogelwch a'r Llinyn Aur yng Nghymru, a fydd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â nodweddion diogelu rhag tân fel drysau tân. Byddwn yn ystyried sut orau i weithio gyda Llywodraeth y DU a phartneriaid allweddol eraill i greu cronfa ddata, gan defnyddio technoleg a llwyfan a fydd yn gofyn am gydbwysedd gofalus rhwng diogelwch a thryloywder.

Roeddech hefyd yn holi am brofion ymyrrol lefel 4. Nid yw'n glir pa werth a geir o'i gwneud yn ofynnol cynnal y profion hyn mewn adeiladau preswyl uchel iawn, ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud am hyn eto. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Meddiannaeth yn ystyried effaith debygol yr argymhellion hyn a sut y byddant yn effeithio ar yr adnoddau presennol, o ran y niferoedd a'r arbenigedd sydd ar gael. Er fy mod yn cydnabod mai profion ymyrrol yw'r unig ffordd o ganfod diffygion penodol mewn adeiladau, rhaid i mi hefyd ystyried prif rôl y gwasanaethau tân ac achub a sut orau i ddefnyddio eu hadnoddau arbenigol a phrin nhw.

Ceir problemau parhaus gyda chynhyrchion diogelu rhag tân, er enghraifft Laminiad Pwysedd Uchel. Rydym yn gweithio'n agos â MHCLG ar eu cynigion ar gyfer creu corff i

oruchwylio cynhyrchion adeiladu nad ydynt yn bodloni'r safon Ewropeaidd wedi'i chysoni. Mae'r capasiti mewn canolfannau profi'n gyfyngedig, ond rwy'n falch iawn bod y farchnad yn dechrau ymateb ac yn ystyried ffyrdd o ehangu'r capasiti hwn. Mae fy swyddogion yn parhau i gydweithio â MHCLG ar y mater hwn.

Hyd y gwn i, mae'r adeiladau preswyl uchel iawn yng Nghymru sydd wedi cael profion bellach wedi cael y canlyniadau. Byddwn yn parhau i weithio gyda pherchenogion adeiladau i wneud yn siŵr eu bod yn cymryd camau lle bo'n briodol i sicrhau diogelwch eu preswylwyr.

Rwy'n falch iawn o'n deddfwriaeth newydd yng Nghymru, sef y ddeddfwriaeth gyntaf yn y byd i'w gwneud yn ofynnol gosod systemau chwistrellu mewn anheddau a fflatiau newydd a'r rheini sydd wedi'u trawsnewid. Mae gennym hanes cryf iawn yn y sector cyhoeddus, gyda systemau chwistrellu wedi'u gosod ym mron i 70% o adeiladau preswyl uchel iawn yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r sefyllfa'n gwella yn y sector preifat hefyd, ond rwy'n cydnabod bod angen gwneud mwy i gynyddu nifer yr adeiladau sydd â system chwistrellu, yn enwedig blociau uchel hŷn. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio ar gynigion ar gyfer opsiynau i gynyddu nifer yr adeiladau preswyl uchel iawn yn y sector preifat sydd â system chwistrellu. Mae ôl-osod systemau chwistrellu yn rhywbeth rwy'n awyddus iawn i'w gefnogi a byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y mater hwn maes o law.

Mae cynlluniau adfer yn eu lle ar gyfer pob adeilad perthnasol yng Nghymru i dynnu cladin ACM nad yw'n cydymffurfio â'r safonau a gosod cladin newydd. Nid yw hyn yn ateb cyflym a hawdd, ac mae datblygwyr wedi bod yn gweithio i ddod o hyd i gladin newydd a'i gynllunio. Mae cladin newydd eisoes wedi'i osod ar un adeilad, ac mae disgwyl i waith ddechrau ar nifer o adeiladau eraill ym mis Medi. Mae'r gwaith ar adeiladau eraill yn parhau, er enghraifft penodwyd contractwyr neu mae prosesau caffael yn mynd rhagddynt. Byddaf yn ysgrifennu i ofyn am ddiweddariad pellach ar gynnydd, a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau.

Cyhoeddodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Ddiwygio Lesddaliadau Preswyl ei adroddiad ar 17 Gorffennaf. Eu hargymhelliad nhw oedd 'Datblygu un Cod cyfunol i Gymru sy'n gysylltiedig â chynllun trwyddedu neu achredu sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau gydnabod y Cod Ymarfer a chydymffurfio ag ef'. Byddaf yn ystyried eu hargymhellion yn ofalus ac yn ymateb iddynt yn yr hydref.

Mae'r Fonesig Judith Hackitt wedi datgan yn gywir nad ddylai unrhyw system ganiatáu i gleientiaid ddewis eu rheoleiddiwr eu hunain. Felly, mae'n bwysig bod Arolygwyr Cymeradwy yn gwbl annibynnol. Fodd bynnag, nid wyf wedi fy argyhoeddi eto y dylai'r awdurdodau lleol weithredu fel yr unig reoleiddiwr ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn. Felly, rwyf wedi gofyn am gyngor arbenigol pellach ar rôl y cyrff rheoli adeiladu (awdurdod lleol neu arolygydd preifat cymeradwy) o dan y system newydd. Bydd y gwaith hwn yn rhan o'r dasg a roddir i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Dylunio ac Adeiladu, a bydd yn cynnwys y goblygiadau o ran adnoddau a chymhwysedd.

Fel y mae eich llythyr yn ei gydnabod, mae'r materion hyn yn gymhleth ac yn dechnegol anodd. I ddiwygio system mor eang ac amlweddog, yn unol â dymuniad y Fonesig Judith Hackitt a'r Pwyllgor, mae angen cydweithio sylweddol a chynhwysfawr. Mae fy swyddogion wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr i sefydlu gweithgorau newydd i lunio manylion y cynigion a amlinellir ym Map y Grŵp Arbenigol ar Ddiogelwch Adeiladau, ac wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen i oruchwylio'r gwaith hwn. Yn ogystal, comisiynwyd ymchwil newydd i helpu i bennu cwmpas rhai o'r diwygiadau hyn ac i ddarparu data ar gyfer dadansoddiad economaidd. Wrth i ni symud ymlaen â'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i ddibynnu ar gyngor technegol, arbenigedd cyfreithiol a thrafodaethau rhynglywodraethol.

Rydym yn gweithio'n gyflym ond bydd yn cymryd amser i weld cynnydd. Rwy'n deall y rhwystredigaeth a fynegir gan y Pwyllgor, ond hoffwn ailddatgan fy ymrwymiad i gyflawni gwelliannau parhaol i ddiogelwch adeiladau yng Nghymru. I'r perwyl hwn, rwy'n gobeithio bod y cynlluniau manwl a anfonwyd atoch wedi lleddfu rhywfaint ar eich pryderon ynghylch cyflymder y diwygiadau hyn.

Yn gywir

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/05455/19

John Griffiths AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leal a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Awst 2019

Annwyl John

Diolch am eich llythyr ar 22 Gorffennaf ynglyn a Fframweithiau Cyffredin y DU.

Nid oes gennyf unrhyw feysydd polisi o fewn fy mhortffolio sydd yn debygol o fod a fframwaith polisi cyffredin.

Yn gywir,

Jane

Jane Hutt AC/AM
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wates

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

By email

09/08/2019

Re: Involvement in the first Future Generations Report

Dear John,

Producing a Future Generations Report is one of my duties in the Well-being of Future Generations Act. It must provide advice on improvements public bodies should make in order to set and meet well-being objectives which are the commitments they chose to make to improve the economy, society, environment and culture of their area. My report will also include information on the progress to date and on what should happen in the future. The Report will be published in May 2020.

This will be the first Future Generations report and will include the following main chapters: 'considering where we are and should go culturally (5 Ways of working and 7 core areas); where we are and should go in achieving the well-being goals (including objectives and steps); a particular consideration of our areas of focus (transport, planning, housing, ACEs, skills, alternative models for the health system, decarbonisation, budgeting and procurement); recommendations and ideas.

Using the five ways of working we intend to follow the involvement principle and in addition to our national conversation 'Our Future Wales' and our online stories forum, 'The People's Platform', I would like to give you an opportunity to help shape the content of my report and my recommendations. I also want to flag in the report, the resources which would be most useful to public bodies and would welcome suggestions as to reports, documentations and recommendations your committee would like to point out.

I would be grateful of you could send us any information or comments you would like me to consider by the 1st of November 2019. I am interested in particular in concerns, observations, opportunities or recommendations you think are most important, as well as a list of issues you think are of greatest importance to current generations and then to future generations to see if they differ.

I look forward to hearing the views of your committee.

If you wanted to talk in person, we could seek to organise a meeting with my colleagues who will also be visiting Ty Hywel's cafeteria in the autumn with Positif Politics and further information will be sent to you about this opportunity. We would welcome the opportunity to meet with you and your colleagues.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

My office will also contact every Assembly Member separately to ask for their personal opinions and we are also preparing tailored 'Assembly Members briefing packs' that provide further information on my work to date and the priorities for the year ahead. You will receive this separately and individually. It will also include some examples of how the Act is being delivered in your area.

If you have any further questions, please don't hesitate to get in touch.

Regards,

Sophie Howe
Future Generations Commissioner for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru
cenedlaethaurdyfodol.cymru

Future Generations Commissioner for Wales
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
contactus@futuregenerations.wales
futuregenerations.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JJ/06286/19

John Griffiths AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Awst 2019

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr ar 22 Gorffennaf ynglŷn a Fframweithiau Cyffredin y DU.

Nid oes gennyf unrhyw feysydd polisi o fewn cylch gwaith Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sydd yn debygol o fod â fframwaith polisi cyffredin.

Yn gywir,

Julie James

Julie James AC/AM
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

10 Medi 2019

Annwyl Weinidog / Dirprwy Weinidog

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2020-21

Cyn ein gwaith craffu ar y gyllideb yn ystod y misoedd nesaf, byddem yn ddiolchgar am bapur ar y dyraniadau yn eich portffolios, yn seiliedig ar egwyddorion craffu ariannol y Pwyllgor Cyllid y cytunwyd arnynt, sef:

- **Fforddiadwyedd** - edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol;
- **Blaenoriaethu** - a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng sectorau/rhaglenni gwahanol mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau;
- **Gwerth am arian** - Yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (h.y.) canlyniadau; a
- **Phrosesau'r gyllideb** - a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynllunio corfforaethol a chynllunio gwasanaethau, a rheoli perfformiad a rheoli ariannol.

Hefyd mae gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb yn y materion a ganlyn:

- Sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca, yn enwedig mewn perthynas â Chyfradd Treth Incwm Cymru
- Y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses o ddyrannu adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar), yn enwedig o ran ariannu byrddau iechyd lleol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- Cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a thrawsnewid gwasanaethau
- Polisïau Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, lleihau tlodi ac anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, a lliniaru diwygio lles
- Gwaith cynllunio Llywodraeth Cymru a'i pharodrwydd ar gyfer Brexit

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

- Sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb
- Sut y mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn dylanwadu ar y gwaith o lunio polisi
- Wrth gyhoeddi 'argyfwng hinsawdd', a yw'n amlwg sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i'r her honno a darparu'r adnoddau angenrheidiol.

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech roi rhagor o fanylion inni am y meysydd hyn fel y maent yn berthnasol i'ch portffolios.

Hoffem i chi ddarparu gwybodaeth fanwl inni am y dyraniadau cyllideb ar gyfer:

- Llywodraeth leol;
- Tai ac Adfywio;
- Cydraddoldeb; a
- Mynd i'r Afael â Thlodi (gan gynnwys Lles).

Wrth ddarparu'r wybodaeth hon, a allwch chi nodi sut y mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi llywio penderfyniadau cyllidebol, gan gynnwys enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol penderfyniadau cyllidebol.

Hoffem hefyd gael enghreifftiau o sut y mae'r bwriad i roi lle blaenllaw i rywedd wrth lunio polisïau wedi effeithio'n uniongyrchol ar ddewisiadau cyllidebol, gydag enghreifftiau penodol.

Mewn gohebiaeth gan y Prif Weinidog ataf yn rhinwedd fy swydd fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi, dywedodd fod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cael y dasg o arwain ar y thema drawsbynciol o dlodi mewn perthynas â'n proses blaenoriaethu cyllideb 2020-21. Hoffem gael rhagor o wybodaeth am sut y mae hyn wedi llywio penderfyniadau cyllidebol yn eich meysydd, gydag enghreifftiau penodol wedi'u hamlygu yn y sylwebaeth.

Hoffem hefyd weld sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi dylanwadu ar eich dyraniadau cyllideb, gyda manylion am ddyraniadau penodol.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi diweddariad ar y broses o weithredu'r argymhellion o'r gwaith ar y cyd a wnaethom gyda'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn olaf, a allwch gynnwys gwybodaeth am effeithiau cyllidebol deddfwriaeth Cymru yn y gyllideb ar gyfer 2020-21?

Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth hon dair wythnos fan bellaf cyn i chi ddod gerbron y Pwyllgor.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon